# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 15 Tachwedd 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Ers gweithredu'r polisi am y tro cyntaf, faint o arian sydd wedi'i roi i Gyngor Sir y Fflint ar gyfer gweithredu'r polisi nofio am ddim i blant ysgol. (WAQ39588)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â charfanau perthnasol ynghylch dyfodol Clwb Pêl-droed Wrecsam. (WAQ39589)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â charfanau perthnasol ynghylch dyfodol stadiwm y Cae Râs fel lleoliad pwysig ar gyfer chwaraeon yn y Gogledd. (WAQ39590)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiadau sydd wedi'u cynnal o sinema Llanrwst gyda golwg ar ei throi yn theatr fach. (WAQ39600)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau Bwrdd yr Iaith, sef "Iaith Gwaith" ac "Wythnos Cymraeg yn Gyntaf". (WAQ39617)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i egluro pam y gwrthodwyd arian Amcan 1 i ranbarth y Coed-duon yn y De-ddwyrain. (WAQ39591)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Brosiect Potentia. (WAQ39606)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi canlyniad yr adolygiad o'r Diwydiannau Creadigol. (WAQ39609)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa ddeddfwriaeth neu reoliadau sydd wedi'u gwneud i reoli pwerau'r WDA o ran gorchmynion prynu gorfodol. (WAQ39615)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** I bwy y byddai gan unigolion yr hawl i gyflwyno apêl pan fydd y WDA yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ39616)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** Pa gyrsiau hyfforddi sy'n cael eu cynnig gan A4E drwy gyfrwng y Gymraeg a lle y mae'r cyrsiau hynny ar gael. (WAQ39607)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** Ar ba ddyddiad y cychwynnodd cyrsiau hyfforddi A4E yng Nghymru a sawl un o'r cyrsiau hynny a gychwynnodd yn brydlon. (WAQ39608)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i fynnu bod gan unrhyw adeilad ysgol newydd systemau chwistrellu i leihau'r perygl o dân. (WAQ39612)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Sawl ysgol ledled Cymru sydd â chyfarpar systemau chwistrellu. (WAQ39613)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Sawl ysgol sydd wedi dioddef achosion o danau bwriadol bob blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf. (WAQ39614)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut y mae cyfraddau heintio MRSA yng Nghymru yn cymharu â Lloegr. (WAQ39601)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ohebiaeth sydd wedi bod rhwng y Gweinidog ag Aelodau Seneddol ynghylch cyhoeddi cyfraddau heintio MRSA yng Nghymru. (WAQ39602)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gan gyrff cyhoeddus ac aelodau o'r cyhoedd ynghylch cyhoeddi cyfraddau heintio MRSA yng Nghymru. (WAQ39603)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r BMA, cyrff nyrsio ac ymddiriedolaethau ysbytai ynghylch cyhoeddi cyfraddau heintio MRSA yng Nghymru. (WAQ39604)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa effaith y mae peidio â chyhoeddi cyfraddau heintio MRSA yng Nghymru yn ei chael ar Aelodau'r Cynulliad, Awdurdodau Iechyd a'r cyhoedd wrth gymharu gwahanol ardaloedd a nodi lleoliadau penodol sy'n achosi problemau. (WAQ39605)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd diweddaraf a wnaed o ran gweithredu'r ddogfen 'Wired for Safety'. (WAQ39610)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd diweddaraf a wnaed o ran gweithredu'r ddogfen 'Up in Flames'. (WAQ39611)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaethau sydd ar gael i drin y cam-ddefnydd o sylweddau a sut i gael gafael arnynt yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. (WAQ39592)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt y gweithgor a sefydlwyd i leihau nifer y bobl sy'n marw oherwydd cyffuriau yng Nghymru. (WAQ39593)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gynhadledd i rannu arferion gorau ar y camddefnydd o gyffuriau a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru ar 11 a 12 Hydref eleni a beth oedd y canlyniadau yn sgil y gynhadledd hon. (WAQ39594)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar recriwtio a chadw staff sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. (WAQ39595)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y staff sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau yng Nghymru o 1997 hyd heddiw. (WAQ39596)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (DANOS) ar nifer yr unigolion sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau yng Nghymru. (WAQ39597)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer trin pobl ifanc sy'n dioddef o gamdefnyddio alcohol a chyffuriau. (WAQ39598)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y rhai rhwng 15 a 30 oed sy'n marw bob blwyddyn oherwydd camddefnyddio alcohol a chyffuriau. (WAQ39599)